Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **"Yr Hawl i fod yn Ddiogel" – y 4ydd Adroddiad Blynyddol** |
| **DYDDIAD** | **4 Mehefin 2014** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth** |

Heddiw cyhoeddais y 4ydd Adroddiad Blynyddol ar Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel gan Lywodraeth Cymru.

Lansiwyd Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel ym mis Mawrth 2010 gyda'r nod o fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Roedd y Strategaeth yn nodi pedwar maes blaenoriaeth allweddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt:

- Atal a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig;
- Darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant;
- Gwella ymateb yr asiantaethau cyfiawnder troseddol; a
- Gwella ymateb y gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill.

Roedd y Strategaeth chwe blynedd hon yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu tair blynedd an oedd yn cynnwys 89 o gamau i'w cyflawni. Gwnaed gwaith ar bob un o'r camau yn y cynllun gweithredu, a chwblhawyd 81 o'r camau hynny. Bydd yr wyth cam arall yn cael eu datblygu ymhellach fel a ganlyn:

1. Camau 1.1, 1.2, 1.13, 4.3 a 4.8 drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol;

2. Cam 3.3 drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan;

3. Cam 4.7 drwy'r Prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach; a

4. Bydd Cam 5.19 yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad ar yr Adolygiad o Wasanaethau, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014.

Rwy'n ddiolchgar i'r holl randdeiliaid, yn y gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli a'r rhai yn y Trydydd Sector, sydd wedi cyfrannu at gyflawni'r camau gweithredu hyn yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r dirwedd wedi newid yn sylweddol ers 2010 pan gyhoeddwyd y Strategaeth gyntaf. Yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth y byddaf yn ei chyflwyno y mis hwn, sy'n ceisio dod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben, credaf mai nawr yw'r amser iawn i bwyso a mesur.

Gyda'r mwyafrif helaeth o'r camau wedi'u cwblhau a'r ychydig sy'n weddill yn cael eu datblygu fel yr amlinellais, hwn fydd yr Adroddiad Blynyddol olaf ar Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel.

Byddwn nawr yn ystyried sut orau i fwrw ymlaen â strategaeth Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, yn erbyn cefndir y Bil arfaethedig. Yn y cyfamser, byddaf yn cymeradwyo rhaglen waith benodol a fydd yn sicrhau bod y gwaith gwerthfawr a gychwynnwyd gan Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel yn parhau.

Mae'r adroddiad ar gael drwy ddilyn y ddolen hon

http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/domestic-abuse/publications/right-to-be-safe-annual-report-2013-14/?skip=1&lang=cy